**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO** |
| **PWNC:** | **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD IAU, 14 TACHWEDD 2019 DYDD IAU, 14 TACHWEDD 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

| | | |
|---|---|---|
| PRESENNOL: | L. PARSONS (CADEIRYDD) | |
| | Cynghorwyr: | J. Hill (Is-gadeirydd)<br>M. Cross<br>G. A. Davies<br>G. L. Davies<br>M. Day<br>P. Edwards<br>J. Millard<br>J. C. Morgan<br>K. Pritchard<br>K. Rowson<br>B. Willis |
| A: | Richard Crook (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol)<br>Ellie Fry (Pennaeth Adfywio)<br>Paul Miles<br>Muhammad Forouzan<br>Amy Taylor (Swyddog)<br>Bethan McPherson (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog Craffu)<br>Steve Smith (Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio) | |

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Moore. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau a goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019.<br><br>Dywedodd y Cynghorydd K. Pritchard iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **<u>DALEN WEITHREDU - 23 MEDI 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019.<br><br>*<u>Llyfryn Defnyddwyr Blaenau Gwent</u>*<br><br>Mynegodd Aelod bryder fod y Cadeirydd wedi cymeradwyo'r llyfryn, gan fod Aelodau wedi gofyn am i ddrafft gopi o'r llyfryn ddychwelyd i'r Pwyllgor i'w ystyried.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd bod Aelodau yn y cyfarfod diwethaf wedi gofyn am weld y llyfryn a'i fod wedi cymeradwyo y drafft lyfryn i'w gylchredeg i Aelodau ar gyfer sylwadau. | |

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol bod y Cadeirydd, yn y cyfarfod o'r Aelodau Gweithredol y cyfeiriwyd ato, wedi cymeradwyo y ddogfen i'w chylchredeg i Aelodau ar gyfer sylwadau.

Dilynodd trafodaeth fer pan ddywedodd y Swyddog Hwyluso Menter fod y DMT wedi ystyried y ddogfen ac y cafwyd adborth cadarnhaol iawn. Cynigiwyd nifer o newidiadau a chaiff y rhain eu cynnwys yn y ddogfen derfynol. Nodwyd adborth aelodau o drafodaethau blaenorol hefyd a gwnaed gwaith gyda'r Adran Cyfathrebu am y dyluniad i sicrhau ei fod yn gydnaws gyda brandio corfforaethol. Dywedodd y Swyddog ei fod yn falch gyda'r canlyniad cyffredinol.

Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig iawn gyda'r llyfryn ac yn teimlo ei fod yn ailadrodd cyhoeddiadau blaenorol.

Cynigiodd y Cadeirydd gwrdd gydag Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor i drafod y llyfryn. Dywedodd y bu hyn yn mynd rhagddo ers peth amser ond gobeithir y bydd yn barod i'w gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2020.

*Blaenraglen Gwaith 2019-20 (Adolygiad Gwasanaethau Hamdden)*

Cyfeiriodd Aelod at y cais am i adroddiadau yr Adolygiad Gwasanaethau Hamdden gael eu hystyried gan Gydbwyllgor Craffu yn y dyfodol a gofynnodd os cafodd hyn ei drafod gyda Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog Craffu y cafodd y mater ei godi ac esboniodd mai'r unig Gydbwyllgorau cyfansoddiadol oedd Diogelu a Monitro'r Gyllideb. Fodd bynnag, mae'n bosibl cynnull Cydbwyllgorau i ystyried materion eraill ond cyfyngir hawliau pleidleisio i'r Pwyllgor Craffu gwreiddiol.

Gofynnodd yr Aelod i'r Swyddog Craffu edrych i mewn i hyn, gan y credai y bu gan bob Aelod hawliau pleidleisio yn y ddau Gydgyfarfod a alwyd i ystyried yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Hamdden.

CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu.

| | | |
|---|---|---|
| **No. 6** | **DALEN BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Ddalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi Dalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 7** | **PONTIO'R BWLCH - BLAENAU GWENT CARBON ISEL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd prosiect Blaenau Gwent Carbon Isel i ddatblygu Cynllun Carbon Isel uchelgeisiol ar gyfer Blaenau Gwent. Mae'r adolygiad yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a rhaglen Pontio'r Bwlch.<br><br>Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Dywedodd fod newid hinsawdd yn fater gwirioneddol bwysig ac y gosodwyd targedau clir ar lefel y Deyrnas Unedig a Chymru i ostwng allyriadau carbon.<br><br>Yn nhermau cynnydd, dynodwyd gwaith da iawn ar draws y Cyngor a byddai'r prosiect hwn yn dod â'r gwaith hwnnw ynghyd er mwyn sicrhau Cyngor mwy effeithiol a gostwng ein hallyriadau carbon. Bwriedir cynnal ymgysylltu pellach gydag Aelodau drwy weithdai Aelodau a chyflwyno'r Cynllun Carbon Isel i'r Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2020.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd at gwmpas y cynllun a fanylir yn adran 2.5 yr adroddiad, yn neilltuol y gwaith a wneir gyda'r gymuned a'n sefydliadau partner drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda golwg ar sicrhau dull gweithredu 'Bwrdeistref Cyfan' at ostwng allyriadau carbon.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad, yn neilltuol gyda'r heriau yn wynebu cenedlaethau'r dyfodol o amgylch cynhesu byd-eang a dywedodd y dylai'r Cyngor ymrwymo i gyflawni targed o ddim allyriadau carbon erbyn 2030 yn unol â tharged Cymru gyfan.<br><br>Gofynnodd Aelod os gwnaed unrhyw waith i sefydlu effaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynyddu traffig fel canlyniad i wneud Heol Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol. Er bod angen mawr am y prosiect i ddenu buddsoddiad i'r ardal, byddai'n ddiddorol gweld effaith amgylcheddol y prosiect.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os byddai'r Awdurdod yn gweithio gyda Tai Calon i sicrhau cyllid grant i gefnogi gostwng allyriadau carbon.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y bu'r Cyngor yn dilyn model 'Dyfodol Carbon Gadarnhaol' Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif ôl-troed carbon y Cyngor, ond nad yw hyn yn caniatáu'r math o gyfrifiadau sydd eiu hangen i asesu effaith heol Blaenau'r Cymoedd, fodd bynnag gallai hyn fod yn rhan o waith ehangach y Cyngor gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd, yn dilyn cyfrifiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, eu bod yn dod allan fel sefydliad carbon gadarnhaol oherwydd faint o dir coedwigaeth y maent yn berchen arno ac mae hyn hefyd yn rhywbeth y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn ei ymchwilio i sicrhau lle'n bosibl y gellir gwrthbwyso allyriadau carbon.<br><br>Yn nhermau cyllid, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Tai Calon yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda nhw a sefydliadau partner eraill. Yn fewnol byddai'r Cyngor yn edrych ar gynlluniau buddsoddi i gynilo, a byddai Swyddogion hefyd yn ymchwilio gwahanol gyfleoedd am gyllid grant.<br><br>i. CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a gwnaeth y Pwyllgor Craffu sylwadau ac argymhellion am y dull gweithredu a gynigir (Opsiwn 2); a<br><br>ii. Bod y Cyngor yn ymrwymo i gyflawni targed o ddim allyriadau carbon erbyn 2030 yn unol â tharged Cymru gyfan. | |
| **No. 8** | **<u>PONTIO'R BWLCH - CYNLLUN TWF</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n gosod nodau ac amcanion y Cynllun Twf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Mae gan y Cynllun fwriad clir i gefnogi mwy o bobl i weithio ac ennill mwy o arian yn byw ym Mlaenau Gwent ac yn tynnu ynghyd gamau gweithredu a gynhwysir ym Mhrosbectws Tai, Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth (Drafft) a Fframwaith Menter y Cyngor ynghyd â'r adolygiad o'r portffolio unedau diwydiannol. Yn ychwanegol mae'r Cynllun yn mynd ati i symud ymlaen â'r cyfleoedd am y diddordeb cynyddol y mae'r sector preifat yn ei ddangos mewn darpariaeth tai yn y Fwrdeistref a'r diddordeb cynyddol yng nghoridor Blaenau'r Cymoedd yn dilyn rhaglen gwneud heol Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol, y cynnydd arfaethedig mewn amlder trefnau ar ddolen reilffordd Cwm Ebwy a chynlluniau tebyg i Cymoedd Technoleg.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforethol at y tabl yn adran 2.11 yr adroddiad a dywedodd y dylai'r £170,000 Polisi Ailalinio Treth Gyngor fod yng ngholofn 2020/21.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at nodau'r Cynllun a amlygir yn adran 2.3, sef cynyddu sylfaen/adennill Treth Gyngor y Cyngor a holodd am ffigurau presennol adennill y Dreth Gyngor.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddydd Corfforaethol y caiff y ffigurau hyn eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol. Fodd bynnag, yng nghyswllt polisi presennol y Cyngor o gynnig gostyngiad ar y Dreth Gyngor ar cartrefi gwag, cyflwynir adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu i gefnogi newid y polisi hwnnw fel na chynigir y gostyngiad mwyach.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer am nifer yr cartrefi gwag yn y Fwrdeistref pan holodd Aelod os cynhaliwyd arolwg i ganfod faint o'r cartrefi gwag oedd ar werth.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na wnaed hyn, fodd bynnag byddai'r adroddiad hefyd yn amlinellu gwaith a fwriedir i gynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y preswylwyr hynny sy'n ei chael yn anodd talu'r Dreth Gyngor.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad, yn neilltuol edrych ar dwf ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd. Cyfeiriodd hefyd at adran 2.7 yr adroddiad sy'n cyfeirio at y cynllun benthyciadau sydd ar gael er mwyn dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a gobeithiai y gellid cynnig hyn i brynwyr tro cyntaf gan eu bod yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | aml yn ei chael yn anodd i sicrhau morgais ar gyfer adeiladau a fu'n wag ers peth amser ac angen eu hadnewyddu'n llwyr.<br><br>Holodd Aelod am nifer fras y cartrefi gwag yn y Fwrdeistref a gofynnodd faint ohonynt oedd yn rhai preifat a faint oedd yn nwylo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod tua 85% mewn dwylo preifat gan fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi gweithio'n galed i ostwng nifer yr unedau gwag o fewn y Fwrdeistref.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n cefnogi'r Cynllun Twf fel y'i cyflwynwyd a'i argymell i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>STRATEGAETH A FFAFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AMNEWID</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Adeiladu a Chynlluniau Datblygu.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Rheoli Adeiladu a Chynlluniau Datblygu yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyo'r Strategaeth a Ffafrir a gynhwysir yn Atodiad 1 a symud ag ef ymlaen ar gyfer ymgynghoriad. Roedd hon yn ddogfen allweddol yn y broses ac mae'n nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol amnewid newydd.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd y Aelod fod potensial ar gyfer cartrefi ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd ond tanlinellodd bwysigrwydd dynodi safleoedd cynaliadwy mewn ardaloedd y mae pobl eisiau byw ynddynt. Yna cyfeiriodd at dudalen 15 yr adroddiad yn neilltuol, yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy, a mynegodd bryder am ddiffyg cysylltiadau trafnidiaeth i stadau diwydiannol y Fwrdeistref a dywedodd fod angen mynd i'r afael â hynny yn neilltuol wrth edrych ar gynyddu twf yn yr ardal. Mynegodd gonsyrn hefyd nad yw Aelodau wedi cael gweld Adroddiad Nash.<br><br>Mewn ymateb, cytunodd y Swyddog y dylai safleoedd tai fod y safleoedd gorau a chadarnhaodd fod asesiad trwyadl iawn yn cael ei gynnal a bod angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth hefyd i'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | safleoedd cyflogaeth, yn arbennig ar draws y Coridor Gogleddol. Yng nghyswllt Adroddiad Nash, cadarnhaodd y Swyddog y byddir yn rhoi ystyriaeth i hyn fel rhan o'r gwaith a wneir ar ganol trefi.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau fod angen i ni fod yn hyderus y gellir sicrhau'r safleoedd tai a ddynodir o fewn y Cynllun.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 3.17 ar dudalen 18 yr adroddiad a theimlid ei bod yn briodol newid geiriau 'Cylchdaith Cymru'. Canmolodd y Swyddog ar adroddiad rhagorol.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os y gall seilwaith a gwasanaethau'r Fwrdeistref ateb y galw y byddai'r safleoedd tai newydd yn dod â nhw.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog yr ymgynghorwyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yng nghyswllt anghenion a gofynion y dyfodol ac y caiff hyn ei fwydo i'r Cynllun, a hefyd weithio gydag Addysg i gynllunio ar gyfer y newidiadau hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn cefnogi diwygiadau i'r Strategaeth a Ffafrir i'w hatgyfeirio at gyfer cymeradwyaeth gan y Cyngor (Opsiwn 2). | |
| **No. 10** | **<u>ADOLYGIAD PERFFORMIAD 2018/19 - CHWARTER 4 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio yr adroddiad perfformiad ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ystod 2018/19. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gabinet y Brifddinas-Ranbarth ym Mehefin 2018 a rhoddwyd sylw i raglenni allweddol o waith y mae'r Awdurdod yn ymwneud ag ef a materion o ddiddordeb i Flaenau Gwent.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo a chyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau elfen Cynllun Datblygu Strategol yr adroddiad.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.11 yr adroddiad a thanlinellu'r angen | |

| | | |
|---|---|---|
| | am well cysylltiadau trafnidiaeth i stadau diwydiannol y Fwrdeistref gan fod hyn yn hollbwysig i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at reilffordd Glynebwy a'r potensial am ddau drên yr awr i Lynebwy ac Abertyleri, a gofynnodd am fwy o wybodaeth am y ffigurau.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai asesiad WelTAG oedd y canllawiau a ddefnyddiwyd ac y caiff y fethodoleg a gynhwysir o fewn y canllawiau hynny eu defnyddio ar draws y Deyrnas Unedig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn y adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried cynnydd cyffredinol a gwneud sylwadau cyn i'r adroddiad fynd i'r Cyngor (Opsiwn 2). | |
| **No. 11** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH - 9 RHAGFYR 2019</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Rhagfyr 2019.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y cafodd yr Wybodaeth Perfformiad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei ystyried erbyn hyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad. | |
| **No. 12** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>** | |
| **No. 13** | **<u>PONTIO'R BWLCH - ADOLYGIAD O'R PORTFFOLIO DIWYDIANNOL</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso o mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r wybodaeth gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio sy'n nodi | |

| | | |
|---|---|---|
| | diben yr adolygiad o'r portffolio diwydiannol. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelod am Gronfa Cydnerthedd Brexit a'r buddsoddiad yn Roseheyworth.<br><br>Dywedodd Aelod fod angen cynyddu proffil ein stadau diwydiannol a gofynnodd os gellid ailfuddsoddi'r arian a geir o werthu rhai unedau mewn unedau eraill.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer stoc presennol ac y bwriedir hefyd symud tuag at brydlesau atgyweirio llawn yn y dyfodol. Dywedodd fod hefyd angen newid yn rheolaeth ariannol yr unedau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a chadw a chadarnhaodd fod pob opsiwn cost-effeithlon yn cael eu hystyried.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at unedau ar stadau preifat a chadarnhaodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried opsiynau i uwchraddio eiddo ar Stad Ddiwydiannol Rasa. Gobeithir y bydd eraill yn dilyn pan welir y gwelliannau hyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a pharhau gyda'r adolygiad a'r camau gweithredu, a chyflwyno'r argymhellion i'r Cyngor eu hystyried. Byddai caniatáu'r adolygiad yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n ein helpu i symud tuag at ffordd fwy masnachol o reoli'r portffolio, cynyddu'r incwm a dderbyniwn a gwella'r gwasanaeth ar gyfer ein tenantiaid busnes (Opsiwn 1). | |
| **No. 14** | **<u>CYFLEUSTER PROFION TECHNOLEG UCHEL GLYNEBWY</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso o mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r wybodaeth gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A | |

| | | |
|---|---|---|
| | Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n hysbysu Aelodau am sefyllfa bresennol y gwaith i ddatblygu'r cyfleuster technoleg uchel yn Rasa.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bwyntiau a godwyd gan Aelodau. Gofynnodd Aelod am i sesiynau gwybodaeth yn y dyfodol gael eu cynnal ar y cyd gyda phob grŵp gwleidyddol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod, a bod y Pwyllgor Gweithredol yn cytuno i gynnal profion marchnad i ddynodi partner sector preifat a datblygu'r cynllun mewn partneriaeth i sefyllfa lle gellir penderfynu os oes achos busnes i symud ymlaen. | |